

Cynigion Cyfarfod Cyffredinol fel y pasiwyd ar 3ydd Hydref 2015

Trosglwyddo Cyfrifoldebau i Ranbarthau

Nodwn na bu datblygiad sylweddol o ran trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb gwleidyddol na chyllidol i ranbarthau'r Gymdeithas yn unol â phenderfyniad y Cyfarfod Cyffredinol. Cyfarwyddwn Senedd y Gymdeithas i drefnu sesiwn benagored i bob aelod sydd â diddordeb i drafod y mater a sicrhau symud ymlaen.

Er mwyn gwireddu penderfyniad a wnaed gan y Cyfarfod Cyffredinol yn 2012, cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol i ddsorannu 25% o'r ffi aelodaeth a delir gan aelodau sy'n ymuno o'r newydd o hyn ymlaen i'r rhanbarth cydnabyddedig o fewn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y mae'r aelodau newydd yn byw ynddi.

Dim ond rhanbarthau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol, ynghyd ag unrhyw feini prawf eraill ychwanegol a bennir gan Senedd y Gymdeithas, fydd yn gymwys i dderbyn yr arian:

- (i) bod gan y rhanbarth drysorydd, cadeirydd ac ysgrifennydd etholedig;
- (ii) bod y rhanbarth wedi cyflwyno adroddiad ariannol blynyddol am y flwyddyn ariannol gyfredol i gyfarfod Cyngor y Gymdeithas;
- (iii) bod y rhanbarth wedi paratoi cynllun codi arian wedi ei gymeradwyo gan swyddog codi arian cenedlaethol y Gymdeithas;
- (iv) bod y rhanbarth wedi ethol cynrychiolwyr i'w gynrychioli mewn cyfarfodydd Senedd a Chyngor y Gymdeithas yn unol â chyfansoddiad cenedlaethol y Gymdeithas;
- (v) bod y rhanbarth wedi anfon cynrychiolydd neu gynrychiolwyr, nad sy'n swyddog cyflogedig, i bob cyfarfod Cyngor a Senedd y Gymdeithas a gynhelir o Hydref 2015 ymlaen.

Cytunwn ymhellach fod pwynt (v) uchod i'w weithredu yn unol â disgresiwn y Senedd.

Datblygu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i weithredu ar frys i ddatblygu gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trwy roi iddo'r cyfrifoldeb strategol o ddatblygu addysg Gymraeg o oedran 16+ ym mhob maes, gan gydlynu darpariaeth. Galwn ar y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill hefyd i roi cytundebau ymchwil i'r Coleg fel bod cyfran deg o wariant ar waith ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynigydd: Grŵp Addysg

Sefydlu Continwmm tuag at Gymunedau Cymraeg

Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i alw cynhadledd genedlaethol i drafod sefydlu continwmm cymunedol ieithyddol er mwyn sicrhau parhad a datblygiad ein cymunedau Cymraeg. Gosodwn yr un nod ledled Cymru o wneud y Gymraeg yn brif iaith ein cymunedau, ond cydnabyddwn fod cymunedau ar wahanol fannau ar y ffordd tuag at hynny.

Dylai cynhadledd o'r fath drafod sefydlu categorïau ieithyddol ar gyfer ein cymunedau, gan dderbyn y bydd gwahanol bolisiau addysg, tai, cynllunio, datblygu economaidd a gweinyddiaeth gyhoeddus mewn gwahanol gategorïau, ond bod y rhain oll yng nghyd-destun hawliau ieithyddol cenedlaethol sylfaenol. Nod llywodraeth ganolog fyddai annog Awdurdodau Lleol i symud cymunedau ar hyd y continwmm tuag at fod yn gymunedau Cymraeg.

Cynigydd: Rhanbarth Caerfyrddin

Strategaethau Iaith Leol

Nodwn fod Awdurdodau Lleol fel Caerfyrddin a Phowys wedi llunio strategaethau iaith ar gyfer eu siroedd, a gwerthfawrogn fod y rhain yn cynnig fframwaith ar gyfer trafodaeth a gweithredu. Galwn am Fil i sicrhau bod pob Awdurdod Lleol yn creu strategaethau ieithyddol o'r fath yn gyson gan adlewyrchu natur ac anghenion y gwahanol gymunedau o fewn eu sir ac chynnwys cyfranogiad eang gan bobl leol. Bydd y strategaethau hyn yn ymestyniad o drefn statudol gyfredol Cynlluniau'r Gymraeg mewn Addysg ac yn cydnabod mai cyfrwng tuag at y nod o greu cymunedau Cymraeg yw hybu addysg Gymraeg, ac nid nod ynddo'i hun.

Cynigydd: Rhanbarth Caerfyrddin

Addysg Gymraeg i Bawb ym Mhowys

Galwn ar Gyngor Sir Powys i weithredu pecyn cynhwysfawr o fesurau o blaid y Gymraeg ym maes addysg, gan gynnwys sefydlu rhwydwaith o ysgolion 2A, a symud ysgolion cynradd ac uwchradd eraill - gan gynnwys pob ysgol dwy ffrwd ym Maldwyn - ar hyd y continiwm ieithyddol.

Cynigydd: Rhanbarth Powys

Cefnogi Ffoaduriaid / Mudwyr

Dros y blynyddoedd, mae pobl o nifer o wledydd ar draws y byd wedi ffoi eu cartrefi wrth ddianc rhag rhyfel, trais, gormes, artaith a thlodi, a achoswyd, yn aml iawn, gan weithredoedd gwledydd y byd gogleddol. Maent yn cynnwys llawer o blant a phobl ifanc sydd yn aml yn teithio ar eu pen eu hunain. Erbyn hyn, mae miloedd wedi cyrraedd Ewrop ac mae canran fach ohonynt yn ceisio croesi'r môr i Wledydd Prydain. Rydym yn datgan ein bod yn cyd-sefyll ac yn estyn croeso iddynt. Er mwyn dangos ein cefnogaeth yn ymarferol, bydd y Gymdeithas yn defnyddio taith bws "Miliwn o Siaradwyr" fel cyfle i gasglu hanfodion i'r rhai sydd wedi ffoi eu gwelydd a bod ymrwymiad i gymryd yr holl hanfodion i'r man lle mae'r angen mwyaf ar ddiwedd y daith.

Yn wyneb anghenion y ffoaduriaid hyn, galwn ar Awdurdodau Lleol Cymru i ymateb yn groesawgar ac yn ymarferol. Credwn mai canlyniad gweithredoedd ein llywodraethau ni yn Ewrop a'r Unol Daleithiau yw llawer o'r sefyllfaoedd y mae'r bobl hyn yn ffoi oddi wrthynt. Galwn ar yr Awdurdodau i roi pob cymorth ymarferol i ffoaduriaid ymgartrefu yng Nghymru, gan ddatblygu'r rhwydwaith presennol o ganolfannau i blant mewnfudwyr i'w galluogi i ddysgu Cymraeg mewn grwpiau teuluol.

Rydym yn fudiad gwrth-ffasgaid ac ni fyddwn yn goddef y defnydd o ffoaduriaid a mudwyr fel bychod dihangol am bolisiau economaidd Llywodraeth San Steffan.

Cynigydd: Tamsin Davies

Eilydd: Heledd Melangell

Cynnig ad-drefnu llywodraeth leol

Cred Cymdeithas yr Iaith fod cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru i ad-drefnu llywodraeth leol yn gam a fydd yn tanseilio democratiaeth lleol. Credwn fod y penderfyniadau gorau yn cael eu gwneud pan fo grym yn agosach i'n cymunedau. Galwn ar y llywodraeth felly i wrthod y cynlluniau presennol a datganoli mwy o bwerau i ardaloedd lleol drwy gynghorau cymuned a chynghorau tref. Os gorfodir y cynlluniau presennol ar yr awdurdodau lleol, galwn ar i'r awdurdod lleol a fydd yn cynnwys Gwynedd i weithredu'n gyfan gwbl Gymraeg i barhau â pholisi gweinyddu cyfrwng Cymraeg Cyngor Gwynedd.

Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd-Môn